Beibl i Blant
yn cyflwyno

Eseciel a'i weledigaethau

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Lazarus

addaswyd gan: Ruth Klassen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2017 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.


Amser maith yn ôl, fe wnaeth byddinoedd mawr ymosod ar Jwda, a chymryd pobl Dduw yn gaeth i Babylon.

Yn bell o'u cartref, roedd yr Iddewon hyn yn byw wrth ymyl yr afon Cebar. Eseciel y proffwyd, gwas Duw oedd un o'r rhain.

Un diwrnod, cafodd Eseciel weledigaeth gan Dduw. Gwelodd ysblander Duw fel golau llachar. Gwelodd pedwar ffigwr oedd yr un siâp â phobl, ond roedd gan bob un pedwar wyneb a phedair adain.

Uwchben y rhain, roedd gorsedd hardd wedi ei wneud o saffir, yn sgleinio fel enfys. Pan welodd Eseciel hyn, aeth ar ei wyneb ar lawr.

Siaradodd Duw hefo Eseciel. "Dw i'n dy anfon di at bobl Israel. Maen nhw wedi gwrthryfela yn fy erbyn i, felly rwyt i ddweud wrthyn nhw beth dw i'n ei ddweud." Dyma law yn ymddangos yn dal sgrôl.

"Agor dy geg a bwyta'r hyn dw i'n ei roi i ti, a dos at bobl Israel," meddai Duw wrtho. Dyna orchymyn od!

Ond gwrandawodd Eseciel, dyma fe'n bwyta'r sgrôl a dechrau ar ei waith.

Cododd Ysbryd Duw Eseciel oddi ar y llawr, a'i gario i ffwrdd at yr Iddewon oedd yn byw mewn man arall yn agos at afon Cebar. Arhosodd gyda nhw am wythnos.

Cafodd ei synnu gan beth oedd yn mynd ymlaen. Dyma Duw yn penodi Eseciel yn wyliwr i warchod (edrych ar ôl) pobl Israel. A'i waith? Rhybuddio'r bobl ddrwg i beidio anwybyddu Duw.



Gwnaeth Eseciel lawer o bethau od er mwyn gwneud i'r bobl ddeall beth roedd Duw yn ei ddweud wrthyn nhw. Tynnodd lun Jerwsalem ar fricsen fawr.



Oedd y bobl wedi edrych dros ei ysgwydd wrth iddo fe ddarlunio byddin bwerus yn amgylchynu Jerwsalem? Roedd e am ddangos fod dinas arbennig Duw ar fin gael ei dinistrio.

Roedd Israel, teyrnas y gogledd, wedi gwrthod gwrando ar Dduw am 390 o flynyddoedd, a Jwda, teyrnas y de, am 40 o flynyddoedd. Dyna pam gafodd Israel ei dinistrio.

Byddai Jwda hefyd yn colli'r frwydr yn fuan. Dywedodd Duw wrth Eseciel am orwedd ar ei ochr chwith am 390 o ddyddiau, ac yna ar ei ochr dde am 40, diwrnod am bob blwyddyn

o bechu.

Mae'n siwr fod y bobl yn dechrau meddwl bod Eseciel yn ddyn rhyfedd iawn. Fe wnaeth e bopeth ofynnodd Duw iddo. Un diwrnod, dyma fe'n siafio ei wallt i gyd, ...







... a llosgi traean ohono – er mwyn dangos fod un rhan o dair o bobl Jerwsalem yn mynd i farw o salwch a newyn pan fyddai byddin Babylon yn ymosod ar y ddinas.





Dyma Eseciel yn torri traean arall o'i wallt gyda chleddyf – er mwyn dangos fod traean o'r bobl yn mynd i gael eu lladd gan gleddyfau'r gelyn. Taflodd Eseciel y

traean oedd ar ôl i'r gwynt.

Ond cadwodd ychydig o'r gwallt yn ei boced fel arwydd fod Duw am gadw rhai o'i bobl yn ddiogel a mynd â nhw yn ôl i Wlad yr Addewid.

Dywedodd y proffwyd dewr hwn wrth yr Iddewon y byddai pethau'n mynd yn waeth, nid yn well. Gwylltiodd y bobl gydag Eseciel, ond daliodd ati.

Un diwrnod, pan oedd yn eistedd gydag arweinwyr Israel, cafodd weledigaeth gan Dduw. Yn y weledigaeth, cafodd ei godi gan Dduw a'i gario i'r deml yn Jerwsalem.

Yn y Deml, dangosodd Duw ymlusgiaid, creaduriaid ffiaidd eraill ac eilun-dduwiau i Eseciel. Doedd y pethau hyn ddim yn





cael eu caniatáu tu mewn i Deml Dduw.

Roedd yr arweinwyr yn addoli'r pethau yma yn lle addoli Duw. Dangosodd Duw ei ysblander yn gadael y Deml.



Byddai'r Deml yn cael ei dinistrio. Pan ddaeth y weledigaeth i ben, aeth Eseciel at yr Iddewon i ddweud beth roedd wedi ei weld.



Daeth popeth roedd
Duw wedi ei ddweud yn wir.
Cafodd Jerwsalem ei dinistrio.
Cafodd llawer o bobl eu lladd.



Pan glywodd yr Iddewon
oedd yn gaeth yng ngwlad
Babylon am hyn, fe wnaethon
nhw ddechrau meddwl bod Duw
wedi troi cefn yn llwyr ar ei bobl.


Ond yna, rhoddodd Duw neges arall i'r proffwyd. Cafodd Eseciel ei ...

... arwain gan Dduw i ddyffryn oedd yn llawn esgyrn

sychion -
esgyrn dynol.

"Ddyn, oes gobaith i'r esgyrn yma ddod yn ôl yn fyw eto?" gofynnodd Duw i Eseciel. "Meistr, ARGLWYDD, dim ond ti sy'n gwybod hynny," atebodd



Eseciel.

Dydy hi ddim yn bosib i esgyrn sychion ddod yn ôl yn fyw, wrth gwrs.



Dyma'r ARGLWYDD yn dweud, "Proffwyda i'r esgyrn hyn, a dweud, 'Esgyrn sychion, gwrandewch ar neges yr ARGLWYDD!



Rwy'n mynd i ddod â chi nôl yn fyw!'"
Wedi i'r proffwyd wneud hyn, fe glywodd sŵn ratlo. Beth ydych chi'n meddwl oedd yn gwneud y sŵn?



Edrychodd y proffwyd mewn syndod - roedd yr esgyrn yn dod at ei gilydd, pob un yn ôl i'w le.



Yna gwelodd gewynnau a chyhyrau'n dod arnyn nhw.



A chroen yn ffurfio amdanyn nhw,
ond doedd dim anadl ynddyn nhw.



Dywedodd yr ARGLWYDD,
"Proffwyda a dweud, 'Tyrd anadl,
o'r pedwar gwynt. Anadla ar y cyrff
yma, iddyn
nhw
ddod
yn ôl
yn
fyw.'"

Pan wnaeth Eseciel hynny, dyma nhw'n dechrau anadlu. Roedden nhw'n fyw! A dyma nhw'n sefyll ar eu traed yn un fyddin enfawr.



Roedd Duw yn gwybod fod yr Iddewon yn Babylon yn teimlo bod dim gobaith iddyn nhw ar ôl i Jerwsalem gael ei choncro.

Anfonodd neges drwy'r weledigaeth.
"Darlun o Israel ydy'r esgyrn,"
meddai Duw.

“Dw i’n mynd i anadlu fy Ysbryd i mewn i chi, ac yn mynd i’ch setlo chi i lawr yn ôl yn eich gwlad eich hunain.”



Dyna neges fawr o obaith gan Dduw! Daeth yr addewidion roddodd Duw trwy Eseciel yn wir pan ddaeth yr

... ar ôl llawer o flynyddoedd. Roedden nhw'n gwybod mai yr ARGLWYDD Dduw oedd wedi dod â



amser yn dod yn wir.

Eseciel a'i weledigaethau

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Eseciel

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16